

Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro

Crynodeb o'r Cynllun Rheoli

Er gwybodaeth i'r cyhoedd



Grŵp Awdurdodau Perthnasol
ACA Forol Sir Benfro



Grŵp Awdurdodau Perthnasol
ACA Forol Sir Benfro

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Swyddog yr ACA:
c/o Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau,
Gorsewood Drive, Aberdaugleddau, Sir Benfro, SA73 3ER
Ffôn: 01646 696108
sacofficer@pembrokeshiremarinesac.org.uk
www.PembrokeshireMarineSAC.org.uk

Paratowyd gan Sue Burton ar
ran Grŵp Awdurdodau
Perthnasol yr ACA, Mehefin
2008



Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau



Parc Cenedlaethol
Seiriol Penfro
Pembrokeshire Coast
National Park



Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales



Asiantaeth yr
Amgylchedd Cymru
Environment
Agency Wales



DŴR CYMRU
WELSH WATER



Trinity House



Ffotograffiaeth: Blaise Bullimore,
Sue Burton, Rohan Holt, David Jones,
Tom Luddington, Fforwm Arfordir Sir Benfro,
Cyngor Sir Penfro, Mark Richards - Aurora
Imaging, Skomer MNR (CCW)
Dylunio: rockpooldesign.co.uk
Argraffwyd ar bapur a ailgylchwyd gan
ddefnyddio inciau llyseuol.
Argraffu: Forrest Print

Beth yw'r cynllun rheoli a pham y mae ei angen?



Grŵp Awdurdodau Perthnasol
ACA Forol Sir Benfro



Mae Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Forol Sir Benfro yn rhan o rwydwaith o safleoedd ledled Ewrop (y rhwydwaith Natura 2000). Dynodwyd y safleoedd Ewropeaidd hyn o dan y Gyfarwydddeb Cynefinoedd. Mae dynodiad o'r fath yn dwyn gydag ef gyfrifoldebau statudol sy'n mynnu bod cyrff cyhoeddus yn diogelu buddiannau cadwraeth natur y safle. Rhaid i Lywodraeth y DU sicrhau bod gofynion y Gyfarwydddeb Cynefinoedd yn cael ei bodloni ac y gweithredir rheolaeth briodol o fewn y safle. Ymdrech ar y cyd gan awdurdodau perthnasol y safle yw'r cynllun rheoli, i gyflawni eu dyletswyddau statudol mewn perthynas â'r ACA. Pe na bai nodweddion y safle'n cael eu diogelu'n briodol, gallai'r Comisiwn Ewropeaidd ddwyn achos cyfreithiol yn erbyn Llywodraeth y DU.

Er mai pwrpas y dynodiad yw amddiffyn nodweddion rhyngwladol bwysig yr amgylchedd morol, nid yw hynny'n golygu na allwn barhau i fwynhau adnoddau naturiol yr ardal. O'i reoli yn briodol, dylai fod modd i bobl gael budd o'r safle heb beryglu'r bywyd morol hynod o gyfoethog ac amrywiol sydd ynddo.

Y weledigaeth ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro yw amgylchedd morol o ansawdd uchel, lle y bydd cyflwr y cynefinoedd a'r rhywogaethau cystal neu'n well nag ydoedd pan ddewiswyd y safle, ac y bydd defnyddio'r amgylchedd morol yn gynaliadwy o fewn yr Ardal Cadwraeth Arbennig yn rhan bwysig ac annatod o'r economeg

gyrdeithasol leol, am genedlaethau i ddod. O ganlyniad, nod y Cynllun Rheoli, a gytunwyd gan yr awdurdodau perthnasol ar gyfer y safle yw:

"Diogelwch a chynnal statws cadwraeth ffafriol Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro trwy sicrhau bod gweithgareddau dynol yn cyd-ddigwydd mewn cytgord â'r cynefinoedd a'r rhywogaethau ar y safle."

Yn benodol, datblygwyd y Cynllun Rheoli er mwyn:

- Gwella'r rheolaeth gyfredol a chydgyssylltu gwaith y cyrff rheoli yn well
- Archwilio'r prif fathau o weithgareddau a datblygiadau sy'n debygol o effeithio ar y nodweddion cadwraeth
- Egluro pwy sydd â'r cyfrifoldebau statudol am wahanol agweddau ar y safle
- Canfod lle mae angen rhagor o wybodaeth a/neu lle mae gofyn gweithredu i reoli gweithgareddau a lleihau eu heffaith, ar ôl ymgynghori â buddianwyr lleol
- Sefydlu rhaglen i fonitro'r bywyd gwylt yn ogystal â'r gweithgareddau a gynhelir o fewn y safle
- Gwella'r ymwybyddiaeth o'r safle



Bwriedir i'r cynllun fod yn gymorth i wneud penderfyniadau, a bydd yn esblygu'n barhaus wrth ymateb i'r newidiadau yn y gweithgareddau, y pynciau llosg, gwyddoniaeth, arferion rheoli, rhwymedigaethau cyfreithiol, ac i wybodaeth newydd am y pethau hyn. Bydd y Cynllun Rheoli yn cael ei adolygu'n ffurfiol fel y bo angen, a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn cael ei werthuso'n barhaus.

Mae'r Cynllun Rheoli llawn ar gael ar wefan yr ACA

www.pembrokeshiremarinesac.org.uk

Gellir gweld copiau hefyd mewn llyfrgelloedd lleol.

Pwy sy'n gyfrifol am reolaeth y safle morol?



Mae Rheoliadau Cynefinoedd y DU (sef y ddeddfwriaeth sy'n cymhwyso'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd yn y DU) yn gwneud "awdurdodau perthnasol" (sef yr awdurdodau hynny sydd â phwerau a swyddogaethau sy'n dylanwadu, neu a allai ddylanwadu, ar yr ACA) yn gyfrifol am gadwraeth a rheolaeth yr ACA. Fodd bynnag, ni all unrhyw un awdurdod perthnasol unigol ymgymryd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am y safle, oherwydd nad oes gan yr un ohonynt yr holl bwerau angenrheidiol. Yn y pen draw, mae cydymffurfio â gofynion y Gyfarwydddeb Cynefinoedd, yn gyffredinol ac o ran ACA Sir Benfro yn benodol, yn gyfrifoldeb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac i Lywodraeth y DU.

Mae'r awdurdodau perthnasol ar gyfer ACA Forol Sir Benfro wedi ffurfio Grŵp Awdurdodau Perthnasol (GAP), sy'n bartneriaeth wirfoddol. Nid oes gan y Grŵp hwn unrhyw bwerau ychwanegol, ond mae'n ateb y diben o sicrhau bod pob awdurdod perthnasol yn datblygu ac yn gweithredu'r cynllun. Mae wyth o awdurdodau perthnasol ar gyfer y safle hwn, sef:

- **Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)**
- **Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC)**
- **Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW)**
- **Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau (APA)**
- **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro (PCNPA)**
- **Cyngor Sir Penfro (CSB)**
- **Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru (PPMDC)**
- **Gwasanaeth Goleudai Trinity House**

Mae cyrff eraill hefyd sy'n arfer pwerau deddfwriaethol o fewn y safle (y cyfeirir atynt fel "awdurdodau cymwys" yn y Rheoliadau Cynefinoedd) wedi cyfrannu at ddatblygu'r Cynllun Rheoli. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Ystad y Goron (YG)**
- **Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)**
- **Yr Asiantaeth Arfordir a Gwylwyr y Glannau (MCA)**
- **Llywodraeth Cynulliad Cymru**

- **Y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD)**
- **Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (NT)**

Ynghyd â phartion eraill sydd â diddordeb, mae'r awdurdodau cymwys hyn i gyd yn aelodau o Fforwm Cyswilt yr ACA. Mae'r wybodaeth a gyflenwir gan y grŵp hwnnw ac eraill, a'u cyfraniad i'r cynllun rheoli, yn hanfodol er mwyn gweithredu'r cynllun yn llwyddiannus.



Nodwyd yr amcanion cadwraeth ar gyfer y safle gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) a'r amcanion hynny yw craidd y Cynllun Rheoli. Er mai cyfrifoldeb y cyrff statudol perthnasol yw sicrhau y bodlonir yr amcanion cadwraeth ac y cynhelir nodweddion y safle mewn cyflwr ffafriol, anogir pawb sydd â diddordeb yn y safle i gyfrannu at ddatblygiad y cynllun. Mae llwyddiant y cynllun yn dibynnu ar barodrwydd holl ddefnyddwyr yr ardal i chwarae'u rhan yn ei reolaeth. Gall codau gwirfoddol ac arferion da, yn ogystal â deddfwriaeth (pan yw ar gael) a gymhwysir ac a orfodir gan gyrrff statudol, wneud llawer i osgoi difrod i'n hamgylchedd.

Beth sydd mor arbennig?



Grŵp Awdurdodau Perthnasol
ACA Forol Sir Benfro

Gan ACA Forol Sir Benfro y mae'r nifer ail uchaf o nodweddion cadwraeth (sef pymtheg), o'r holl safleoedd ACA morol yn y DU. Dewiswyd y safle ar sail wyth o'r mathau cynefinoedd (yn Atodiad I i'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd) a saith o'r rhywogaethau (yn Atodiad II). Ystyrir mai'r safle yw un o'r ardaloedd gorau yn y DU ar gyfer:

Creigresi

Cilfachau a baeau eang a bas

Aberoedd

Y morlo llwyd - *Halichoerus grypus*



a'i fod yn cynnal presenoldeb arwyddocaol o'r canlynol:

Lagwnau arfordirol

Gwastadeddau llaid a thywod nas gorchuddir gan ddŵr y môr pan fo ar drai

Cefnau tywod a orchuddir gan ychydig o ddŵr y môr trwy gydol yr amser

Ogofâu morol tanddwr neu rannol danddwr

Morfa heli Iwerydd

Herlynod - *Alosa alosa*

Gwangod - *Alosa fallax*

Llysywod pendoll yr afon - *Lampetra fluviatilis*

Llysywod pendoll y môr - *Petromyzon marinus*


Dyfrgwn - *Lutra lutra*

Tafol y traeth - *Rumex rupestris*



Pennwyd ffin y safle er mwyn cwmpasu'r nodweddion y dewiswyd y safle ar eu cyfer. Nid yw'n cynrychioli union estyniad unrhyw un o'r nodweddion. Mae'r nodweddion ar wasgar trwy'r safle; nid oes yr un ohonynt sy'n bresennol ym mhob rhan o'r safle, ond mae nifer ohonynt yn gorgyffwrdd mewn manau.

Mae'r ACA yn ymestyn o bwynt ychydig i'r gogledd o Aberdeidi ar arfordir gogleddol Sir Benfro hyd at bwynt ychydig i'r dwyrain o Faenorbyr yn y de, ac yn cynnwys arfordiroedd ynnysoedd Dewi, Sgomer, Gwales, Sgogwm, y Cerrig a'r Smalls. Mae hefyd yn cwmpasu bron y cyfan o Ddyfrffordd Aberdaugleddau. Terfyn yr ACA ar ochr y tir am y rhan fwyaf o'i hyd yw'r marc pen llanw uchaf.



Sut y mae'r cynllun rheoli hwn yn effeithio ar ddefnyddwyr y safle morol?

Gall amrywiaeth eang o ffactorau effeithio ar nodweddion bywyd gwylt morol yr ACA. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Newidiadau yn y llifau llanwol, tonnau, tymheredd, cymylogrwydd a gwaddodion**
- **Newidiadau yn nodweddion cemegol y dŵr, er enghraifft oherwydd llygru (presennol a gorfennol)**
- **Ymyrraeth neu ddifrod ffisegol i gynefinoedd a rhywogaethau**
- **Casglu neu symud rhywogaethau**
- **Effeithiau ecolegol canlyniadol oherwydd newidiadau yn y gadwyn fwyd, neu trwy ledaeniad afiechyd neu lygru genetig (er enghraifft trwy ychwanegu rhywogaeth newydd neu 'estron')**



Mae amgylchedd morol ac arfordirol Sir Benfro yn adnabyddus yn genedlaethol ac yn rhyngwladol oherwydd ei fywyd gwylt a'i dirwedd hynod. Ar yr un pryd, mae ei werth yn anferthol i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal a'r ymwelwyr sy'n heidio yno i fwynhau gweithgareddau hamdden.

Yr her i'r cynllun rheoli, felly, yw cynnal y bywyd gwylt pwysig sydd yn yr ACA, tra'n annog defnyddio'r safle mewn ffordd gynaliadwy, a bodloni anghenion y defnyddwyr niferus, yn awr ac yn dyfodol. Er bod potensial mewn llawer o'r gweithgareddau i andwyo'r bywyd gwylt morol, dylai fod modd eu hatal rhag gwneud hynny yn sylweddol, trwy eu cyfyngu i lefelau cynaliadwy a lleoliadau addas.

Nid y bwriad yw atal pob gweithgarwch, ond yn hytrach adnabod a gwella'r modd y rheolir y gweithgareddau hynny sy'n niweidiol. Mae llawer o'r gweithgareddau'n annhebygol o niweidio'r bywyd gwylt y dewiswyd y safle o'i herwydd, ac felly nid effeithir ar y rheini. Prin yr effeithir chwaith ar y gweithgareddau a allai achosi difrod, ond sydd eisoes yn cael eu rheoli yn effeithiol.

Bydd llawer o'r gweithredu o dan y Cynllun Rheoli yn golygu cadw'r sefyllfa gyfredol o dan arolwg, neu gydweithio ag eraill i ddatblygu mesurau megis pennu parthau penodol ar gyfer gweithgareddau, neu godau ymarfer gwirfoddol. Ni chyflwynir unrhyw fesurau rheoli newydd i amddiffyn neu atal difrod i'r nodweddion sydd o ddiddordeb, heb ymgynghori yn gyntaf â'r holl fuddianwyr. Bydd casglu gwymbodaeth hefyd yn chwarae rhan bwysig.

Yn yr adrannau sy'n dilyn, crynhoir y prif weithgareddau a'u potensial cyfredol i effeithio ar nodweddion yr ACA. Ceisiwyd hefyd rhoi crynodeb o'r prif gamau a gymerir yn ymateb i bob gweithgaredd. Dylid nodi bod y camau hyn, yn gyffredinol, yn mynd tu hwnt i'r rheolaeth barhaus gyfredol a weithredir eisoes. Rhoddir rhagor o fanylion yn nogfen dechnegol lawn y cynllun rheoli.

Porthladdoedd, hafanau a llongau



Grŵp Awdurdodau Perthnasol
ACA Forol Sir Benfro



Aberdaugleddau yw'r porthladd mwyaf yng Nghymru, ac un o'r mwyaf yn y DU. Mae presenoldeb dwy burfa olew (Chevron a Murco), un uned storio olew (SemLogistics), dociau Aberdaugleddau, porthladd Penfro â'i fferi sy'n cludo ceir i Lwerddon, cargo cyffredinol, a gweithgarwch y Weinyddiaeth Amddiffyn, i gyd yn achosi llawer o draffig llongau; cofnodwyd bron 11,000 o symudiadau llongau yn 2006. Bydd ychwanegu dwy derfynell nwy naturiol hylifedig (South Hook LNG a Dragon LNG), marina newydd yn Noc Penfro (Martello Quays), yn ogystal â'r posibilrwydd o orsaf bŵer, yn achosi cynnydd sylweddol eto yn y traffig llongau a'r defnydd a wneir o'r porthladd.

Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yn gyffredinol yw rheoli traffig llongau. Mynnir bod llongau yn cydymffurfio â thoreth o ddeddfwriaeth, llawer ohoni yn tarddu o'r IMO (Y Mudiad Morol Rhyngwladol - un o asiantaethau arbenigol y Cenhedloedd Unedig), yn ogystal â deddfwriaeth y DU. O fewn dyfrffordd Aberdaugleddau, gall Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau ddefnyddio Gorchmynion Harbwr ac is-ddeddfau i reoli'r dyfroedd yn ei awdurdodaeth. Yn ychwanegol, rheolir unrhyw ddatblygu o fewn yr harbwr gan y rheolaethau cynllunio lleol.

Dylid nodi bod gan bawb hawl i fordwyo, o dan gyfraith gwlad; ac y mae rhwymedigaeth, felly, ar yr Awdurdod Porthladd i hwyluso defnydd diogel o'r harbwr.

Er gweithredu lefel uchel o reolaeth o fewn dyfrffordd Aberdaugleddau, mae rhai manau lle y gellid gwella, o ran yr amgylchedd morol ac o ran cadwraeth natur, o fewn a thu allan i awdurdodaeth yr Awdurdod Porthladd. Y canlynol yw rhai o'r camau sydd angen eu cymryd ar hyn o bryd, i ymateb i'r materion cyfredol a allai beri'r pryder mwyaf ynghylch nodweddion yr ACA.

gweithredoedd

Cwblhau a gweithredu strategaeth hirdymor ar dreillio o fewn y ddyfrffordd, a fydd yn meithrin agwedd holistig at dreillio cyfalafol a "chynnal a chadw" fel ei gilydd, ac yn cyfyngu unrhyw dreillio i'r lleiaf posibl, o'r dechreuad.

Gwella'r modd y rheolir angori a chlymu llongau o fewn yr ACA, gan sefydlu parthau 'dim angori' a pharthau 'dim angorfeydd', er mwyn diogelu llecynnau o *Zostera* (gwellt y gamlas) a *Maerl* (gwymon calchog).

Gwella'r cyfleusterau i dderbyn gwastraff porthladd, a gorfodi eu defnyddio, er mwyn lleihau'r perygl o lygru trwy arllwys atalyddion tyfiant, cemeigion glanhau ac olewau i'r dŵr.

Dysgu rhagor am yr arfer o arllwys dŵr balast o fewn yr ACA, ac adolygu'r arfer (gyda golwg ar ei leihau), er mwyn gostwng nifer y rhywogaethau 'estron' a ychwanegir o'r tu allan ac a allai niweidio'r bywyd gwylt brodorol.

Ymchwilio i systemau a allai wella'r wybodaeth am symudiadau llongau y tu allan i awdurdodaeth yr Awdurdod Porthladd.

Ymdrinnir â materion eraill sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd a llongau yn yr adrannau eraill.

Adnoddau byw



Yn yr adran hon ymddrinnir â gweithgareddau megis casglu anifeiliaid neu blanhigion, naill ai i'w bwyta neu at ddibenion eraill (e.e. abwyd, gwrtai, casgliadau hynodion), dyframaethu, ac yn fwyaf arbennig, pysgota. Porthladd Aberdaugleddau, fu canolbwynt diwydiant pysgota Sir Benfro er yr ail ganrif ar bymtheg. Er bod y diwydiant bellach wedi dirywio'n sylweddol, mae'r porthladd yn parhau'n fan glanio pwysig i'r fflyd bysgota gefnforol (llongau dan faner Sbaen neu gychoed Belgaid a Ffrengig yn bennaf) ac i'r fflyd arfordirol leol. Mae cychod arfordirol lleol sy'n pysgota am amrywiaeth eang o rywogaethau, gan gynnwys draenogiaid môr, crancod, cimychiaid, wystrys a chregyn bylchog i'w cael mewn mân hafanau ledled yr ACA.

Gan fod bron y cyfan o'r ACA o fewn 6 morfilltir i'r waelodlin, llongau a badau a gofrestrwyd yn y DU yn unig a gaiff bysgota ynddi. Rhwng 6 a 12 morfilltir allan, mae rhai aelod-wladwriaethau eraill (Ffrainc a Gwlad Belg yn lleol) yn cadw hawliau hanesyddol i elwa ar rai rhywogaethau. Llywodraethir gweithrediadau pob un o'r cychod hyn gan Bolisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC) yr Undeb Ewropeaidd. Yn y dyfroedd arfordirol (0 - 12 morfilltir) mae deddfwriaeth ychwanegol y DU yn gymwys i longau a gofrestrwyd yn y DU. Yng Nghymru, datganolwyd rheolaeth ar bysgodfeydd o fewn 12 morfilltir i'r lan i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae ACA Forol Sir Benfro o fewn ardal Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru (PPMDC) sy'n gyfrifol am reoli bysgodfeydd rhwng 0 a 6 morfilltir. Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd gyfrifoldebau ynglŷn â rheoli bysgodfeydd o fewn afonydd/aberoedd ac ynglŷn â rhai rhywogaethau o bysgod mudol. Rhagweli'r bydd rheolaeth bysgodfeydd yng Nghymru yn newid, yn dilyn adolygiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyflwyno'r Mesur Morol.

Dylid nodi bod hawliau o dan gyfraith gwlad i fanteisio ar adnoddau byw at ddefnydd personol.

Y canlynol yw'r materion sydd, ar hyn o bryd, â'r potensial i achosi'r mwyaf o bryder ynghylch nodweddion yr ACA, ac y tybir eu bod felly yn hawlio'r flaenoriaeth uchaf o ran gweithredu.

gweithredoedd

Ymdrechu i ddiogelu nodweddion yr ACA a lleihau effeithiau ecolegol canlyniadol, trwy weithio i sicrhau bod elwa yn fasnachol ar adnoddau o fewn yr ACA yn digwydd o fewn terfynau cynaliadwy (heb effeithiau amgylcheddol negyddol ar rywogaethau na thargedir, a heb effeithio ar y stociau na'r cynefin, fel y gall y gweithgareddau barhau yn y dyfodol er budd cenedlaethau i ddod). Sicrhau bod y gweithrediadau pysgota mor ddetholus ag y bo modd (gan leihau sgil-ddaliadau) a hyrwyddo'r defnydd o gêr a dulliau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd.

Adolygu pob math o dreillio o fewn yr ACA a gweithredu i atal difrod i nodweddion yr ACA. Achosir pryder penodol gan y gweithgarwch hwn mewn rhannau cysgodol (y Ddyfrffordd), ym Mae Sain Ffraid, ac uwchlaw'r creigresi. Yn benodol, sefydlu parthau 'dim gêr tynnu' i ddiogelu llecynnau o *Zostera* (gwellt y gamlas) a *Maerl* (gwymon calchog) rhag pob math o bysgota trwy dreillio.

Gweithio i sicrhau bysgodfa wystrys brodorol gynaliadwy yn y Ddyfrffordd.

Gorfodi defnyddio cliciedi bioddiraddadwy ar gewyll o fewn 3 blynedd er mwyn lleihau effeithiau'r gêr a gollir (e.e. 'rhith-bysgota') ar nodweddion yr ACA.

Datblygu, hyrwyddo a gorfodi cyfyngiadau megis pennu parthau, neu gyfyngiadau tymhorol, er mwyn lleihau'r pwysau ar yr hoff fannau casglu abwyd masnachol presennol, a gwella'r modd y rheolir casglu abwyd yn gyffredinol o fewn yr ACA.

Pwysu am wella'r pwerau i reoli'r modd y ceshlir rhywogaethau â llaw yn y manau rhynglanwol, boed ar gyfer eu bwyta yn uniongyrchol, neu fel abwyd, neu i'w defnyddio mewn mentrau dyframaethu neu ransio.

Goleuo'r broses o reoli adnoddau byw o fewn yr ACA trwy gasglu/ cydosod gwybodaeth am weithgareddau (ym mhle, i ba bwrpas, a pha faint) a data i wella'r rhyngweithio rhwng y modd y defnyddir yr adnoddau byw a nodweddion yr ACA.

Cyfeirir at faterion eraill sy'n achosi pryder mewn adrannau eraill o'r cynllun gweithredu, gan gynnwys arllwys carthion, gwastraff cyffredinol ac ysbwriel allan o longau, a llygru'r arfordir gan hydrocarbonau.

Ansawdd dŵr , llygredd a gwaredu gwastraff



Grŵp Awdurdodau Perthnasol
ACA Forol Sir Benfro

Mae Sir Benfro, oherwydd ei lefelau uchel o weithgarwch amaethyddol a'i thwristiaeth dymhorol, ei diwydiant a'i llongau, sy'n ymhl yn arbennig yn nyffirfordd Aberdaugleddau, ac oherwydd ei lleoliad gorllewinol sy'n wynebu Llif y Gwlff, yn agored i lawer o fewnbynnau sy'n llygru, o'r tir ac o'r môr.

Er bod y defnydd a wneir o'r môr wedi cynyddu dros y 50 mlynedd diwethaf, mae rheolaeth reoliadol ar arllwysiadu i'r môr wedi eu tynhau yn sylweddol hefyd, Erbyn hyn mae toreth o ddeddfau rhyngwladol ac Ewropeaidd mewn grym, gan gynnwys nifer o Gyfarwyddbau Ewropeaidd, i ymdrin ag ansawdd dŵr a llygru.

Fodd bynnag, mae problemau yn parhau i godi ynglyn ag ansawdd dŵr (a gwaddodion), llygru a gwaredu gwastraff; pa mor fanwl bynnag yw'r rheoleiddio, mae lle i wella bob amser. Y canlynol yw rhai o'r camau sydd angen eu cynryd ar hyn o bryd, i ymateb i'r materion cyfredol a allai beri'r pryder mwyaf ynghylch nodweddion yr ACA.



gweithredoedd

Parhau i adolygu'r holl ganiatadau arllwys, a phennu terfynau llymach, fel y bo'n angenrheidiol a chymwys. Er gwaethaf y terfynau a bennir ar gyfer manau arllwys unigol, mae canlyniadau arolygon cyfredol yn dangos crynodiadau annerbyniol o uchel o rai llygryddion o fewn y ddyffirfordd. Yn ychwanegol, mae pryder y gallai unrhyw amrywiadau sylweddol mewn heffedd a thymheredd oherwydd gweithgarwch diwydiannol lleol, ac unrhyw gynnydd mewn lefelau maetholion, andwyo nodweddion yr ACA.

Dylid mynd ati i leihau llygredd tryledol amaethyddol trwy gydweithio â rheolwyr ACA Afonydd Cleddau, a thrwy welliannau yn y modd y rheolir tir.

Datblygu, cwblhau a chyflawni'r cynlluniau argyfwng o fewn y sir ar gyfer ymateb i lygru (gan gynnwys argyfyngau olew), a sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion nodweddion yr ACA.

Chwilio am ffyrdd o leihau presenoldeb sbwriel (a'i effeithiau) ar nodweddion yr ACA, yn enwedig trwy dargedu pysgotwyr allan ar y môr a defnyddwyr y traethau yn gyffredinol.

Darparu cyfleusterau digonol ar y lan ar gyfer derbyn carthion o llongau.

Gwella'r wybodaeth gyfredol am llygryddion a'u heffeithiau ar nodweddion yr ACA, sef yn benodol, i) pa llygryddion, os oes rhai, a geir oddi ar yr arfordir agored, a ii) ymchwilio i effeithiau cronuss a chydeffeithiau llygryddion.

Cyfeirir hefyd at faterion ansawdd dŵr mewn perthynas â llongau, porthladdoedd a datblygu cyffredinol, mewn adrannau eraill o'r cynllun rheoli.

Hamdden



Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau hamdden yn y sir yn seiliedig ar amwynderau naturiol yr ardal oedd arfordirol. Er bod llawer o ymwelwyr yn bodloni yn syml ar fwynhau'r golygfeydd, mae rhai gweithgareddau'n ymwneud yn uniongyrchol

â'r bywyd gwyllt a phriodweddau naturiol yr ardal; er enghraifft, gwyltio morloi (yn ogystal â morfilod ac adar), a chwaraeon dŵr. Mae'r nodweddion naturiol hyn yn adnodd gwerthfawr i nifer cynyddol o ddefnyddwyr hamdden.

Yn gyffredinol, gan mai o natur ffisegol yr ardal, i raddau helaeth, y mae'r cyfleoedd hamddena arfordirol yn tarddu, cymerwyd y rhan fwyaf o'r camau rheoli yn lleol. Mae'r camau hynny'n cynnwys pennu parthau, rheoli cyflymder, cyfyngu mynediad a sefydlu codau ymddygiad. Cymhwyswyd is-ddeddfau hefyd i reoli effeithiau hamddena mewn rhai amgylchiadau (ynghyd â diogelwch y cyhoedd yn bennaf).



Nid oes unrhyw awdurdod unigol perthnasol sydd â chyfrifoldeb statudol am gadw rheolaeth ar weithgareddau hamdden sy'n seiliedig ar y môr. Mae'r llywodraeth yn cydnabod rhai sefydliadau, megis y Gymdeithas Lotio Frenhinol, Undeb Canŵio Prydain ac eraill fel cynrychiolwyr gweithgareddau penodol. Ychydig neu ddim deddfwriaeth sylfaenol arweiniol sy'n bod ar hyn o bryd, ac eithrio ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd a mynediad i gefn gwlad. Gall y sefyllfa hon newid os daw'r Mesur Morol i rym.

Wrth baratoi'r cynllun rheoli, nodwyd nifer o faterion sy'n codi ynghyd â defnyddio'r safle i ddibenion hamdden. Y canlynol yw rhai o'r gweithgareddau hamdden sydd â'r potensial mwyaf ar hyn o bryd i achosi pryder ynghylch nodweddion yr ACA, ac sydd felly yn hawlio'r flaenoriaeth uchaf o ran gweithredu.

gweithredoedd

Sicrhau bod hamddena yn digwydd o fewn y ACA ar lefelau cynaliadwy (gan leihau i'r eithaf unrhyw effeithiau ar nodweddion yr ACA) trwy: i) sicrhau y rhoddir ystyriaeth i nodweddion yr ACA wrth hyrwyddo'r ardal ar gyfer hamdden, ii) ymchwilio i eithafbwynt gallu'r ardal i ymdopi â'r baich hamddena (gyda chymorth gwybodaeth waelodlin a gasglwyd trwy'r prosiect 'archwilio hamdden' a weinyddir gan Fforwm Arfordir Sir Benfro), a iii) cefnogi a hyrwyddo gwaith Cod Morol Sir Benfro a Grwpiau Siarter Awyr Agored Sir Benfro.

Sicrhau yr hyrwyddir codau priodol ar gyfer genweirio yn y môr, a chodi ymwybyddiaeth o'r problemau a achosir gan sbwriel a'r gêr coll y mae pysgotwyr yn eu gadael ar eu hôl, a'r angen i'w lleihau. Cefnogi mentrau ailgylchu leiniau ac ymgyrchoedd glanhau.

Ceisio lleihau'r ddibyniaeth ar abwyd byw. Yn benodol, datblygu a chyflwyno mesurau rheoli mewn hoff fannau cloddio am abwyd, megis y Gann ac Angle Bay, er mwyn diogelu cymunedau'r gwastadeddau llaid yn y manau hynny.

Sicrhau bod defnyddwyr cychod pŵer yn gwybod am God Morol Sir Benfro a Chynllun Hamdden Dyfrffordd Aberdaugleddau ac yn eu diilyn. Cyflwyno rheolaeth bellach os bydd gofyn, i ddiogelu rhywogaethau a chynefinoedd sensitif (megis morloi, dyfrgwn, morfeydd heli a gwastadeddau llaid a thywod rhynglanwol).

Gwella'r modd y rheolir angori a chlymu at ddibenion hamdden o fewn yr ACA gan gynnwys, yn benodol, sefydlu parthau 'dim angori' a pharthau 'dim angorfeydd', er mwyn diogelu llecynnau o *Zostera* (gwellt y gamlas) a *Maerl* (gwymon calchog).

Materion cyffredinol eraill sy'n peri pryder ac yn gysylltiedig â gweithgarwch hamdden yw taflu sbwriel ac ansawdd y dŵr, a chyfeirir at y rheini mewn adrannau eraill o'r cynllun.

Gweithgareddau amrywiol



Grŵp Awdurdodau Perthnasol
ACA Forol Sir Benfro



Mae'r adran hon yn cwmpasu datblygu ar yr arfordir, gweithgarwch milwrol, alldynnu dŵr, addysg ac astudiaethau gwyddonol, archeoleg forol a lles anifeiliaid. Er yr ymddrinnir â datblygu arfordirol fel "cynllun neu brosiect" (gweler yr adran honno ar wahân), gall effeithiau'r datblygu fod mor sylweddol nes haeddu cyfeirio atynt yma hefyd. O fewn yr ACA, mae'r rhan fwyaf o'r datblygu arfordirol yn digwydd yn rhannau isaf a chanol dyfrffordd Aberdaugleddau. Bu'r gweithgarwch yn arbennig o ddwys yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gydag adeiladu'r ddwy derfynell nwy naturiol hylifedig. Disgwylir cynnydd eto mewn datblygu yn y dyfodol agos, os gwirreddir prosiectau fel Martello Quays ger Doc Penfro, yr estyniad posibl i'r marina yn Aberdaugleddau a'r orsaf bŵer arfaethedig ym Mhenfro. Ymchwilir hefyd i brosiectau ynni amgen yn y môr ger yr arfordir – pŵer tonnau a phŵer llanw – yn eu trefn, ger West Dale a St Justinian's.

Yn gyffredinol ar hyn o bryd, nid yw awdurdodaeth cynllunio lleol yn ymestyn ymhellach na'r marc distyll cymeredig. Mae angen caniatâd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac yn aml gan adrannau Llywodraeth y DU yn ogystal, ar gyfer unrhyw ddatblygu islanwol. Yn aml hefyd, mae angen gwahanol drwyddedau a chaniatadau eraill, megis trwydded gan Ystad y Goron ar gyfer unrhyw adeiledd parhaol a godir ar wely'r môr. Pan wneir cais i gael datblygu yn y môr, ymgynghorir yn aml â nifer o wahanol gyrff gan gynnwys, pan fo'n briodol, yr Asiantaeth Arfordol a Gwylwyr y Glannau, Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Pwylgwr Pysgodfeydd Môr. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn gweithredu fel cynghorwr cadwraeth natur i'r Llywodraeth mewn prosesau

o'r fath. Dylai'r Mesur Morol wella'r trefniadau trwyddedu a chaniatâd, a darparu ar gyfer cynllunio gofodol priodol yn y môr, gan liniaru rhywfaint ar y dull gweithredu bratiog presennol.

Y canlynol yw rhai o'r materion sydd, ar hyn o bryd, â'r potensial i achosi'r mwyaf o bryder ynghylch nodweddion yr ACA, ac y tybir eu bod felly yn hawlio'r flaenoriaeth uchaf o ran gweithredu.

gweithredoedd

Sicrhau nad awdurdodir unrhyw gynllun na phrosiect (ac eithrio "am resymau tra phwysig sydd o fudd cyhoeddus gor-redol") y byddai ei effaith yn andwyo cyfanrwydd y safle. Dylid nodi yn ofalus, a lleihau i'r eithaf, yr effeithiau cronrus ar yr ACA o ganlyniad i'r datblygu cyson ar yr arfordir (gan gynnwys marinas, er enghraifft, yn ogystal â safleoedd diwydiannol), oherwydd gall effeithiau hyn fod yn sylweddol.

Sicrhau bod pob waith cynnal a chadw a gweithgarwch gweithredol yn ystyried, ac yn lleihau i'r eithaf, unrhyw effeithiau andwyo ar nodweddion yr ACA. Er enghraifft, pan fo modd, defnyddio deunyddiau amgen sy'n garedig i'r amgylchedd, yn hytrach na chyfryngau cemegol niweidiol, i lanhau arwynebau ar y forlin (grisiau, lliithrefydd etc).

Dylid adolygu yr effeithiau ar nodweddion yr ACA o ganlyniad i alldynnu dŵr, a phan fo angen dylid ymateb ar y cyd â rheolwyr ACA Afonydd Cleddau.

Adnoddau, ymwybyddiaeth ac addysg, a gwybodaeth



gweithredoedd

Ceisio sicrhau bod yr offer priodol ar gyfer rheoli (sef pwerau ac adnoddau digonol) ar gael i'r rhai sy'n gyfrifol am ofalu am yr ACA.

Codi lefel ymwybyddiaeth pawb sy'n defnyddio ac yn rheoleiddio'r safle ynghylch eu heffaith bosibl ar nodweddion yr ACA, a'r camau y gallent eu cymryd i leihau unrhyw effeithiau.

Codi lefel ymwybyddiaeth rhanddeiliaid ac aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol, i'w galluogi i ddeall yr ACA a'i chynllun rheoli.

Gweithio i gasglu'r wybodaeth briodol i oleuo'r cynllun rheoli (gan gynnwys gwybodaeth am weithgareddau ac effeithiau'r gweithgareddau ar nodweddion yr ACA). Pan fo'r wybodaeth yn brin, cymryd agwedd fwy rhagofalus at reoli'r ACA er mwyn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol.

Gwella'r modd y cesglir y data ac y'u rhennir â'r cyrff berthnasol. Yn benodol, datblygu a chynnal system ddata a fydd yn seiliedig ar y system gwybodaeth ddaearyddol GIS, i gofnodi gwybodaeth waelodlin a fydd yn berthnasol i reolaeth yr ACA ac i'r proses o wneud penderfyniadau.



Cynlluniau a phrosiectau



Grŵp Awdurdodau Perthnasol
ACA Forol Sir Benfro



Yn ychwanegol at reoli gweithgareddau yn y safle trwy'r cynllun rheoli, mynnir bod yr awdurdodau perthnasol ac eraill yn asesu "cynlluniau a phrosiectau" a allai effeithio ar y nodweddion y dynodwyd y safle ar eu cyfer. Yr hyn a olygir wrth gynlluniau a phrosiectau yw gwahanol fathau o weithrediadau sy'n galw am ganiatâd statudol o ryw fath (e.e. ceisiadau cynllunio, caniatadau arllwys). Mae asesu'r rhain yn digwydd ar wahân i ddatblygu'r cynllun rheoli. O dan y ddeddfwriaeth, rhaid ystyried pob cynllun neu brosiect fesul achos unigol. Yn syml, ni ellir mynd ymlaen â chynllun neu brosiect oni ellir dangos na fydd yn cael effaith andwyol ar nodweddion y safle. Gwneir eithriadau yn achos cynigion a wneir - ym marn Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu adran berthnasol Llywodraeth y DU - "am resymau tra phwysig sydd o fudd cyhoeddus gor-redol", a gallai hynny olygu budd cymdeithasol neu economaidd.



Sut y gallwn wybod a yw'r safle morol yn llwyddo'n dda ai peidio?



Grŵp Awdurdodau Perthnasol
ACA Forol Sir Benfro

Mae bywyd gwyllt morol yr ACA wedi cael ei wyllo a'i astudio ers llawer o flynyddoedd, at amryw o wahanol ddibenion. Yn y cynllun rheoli, ceisir ffocysu llawer o'r gwaith ymchwil a monitro rheolaidd ac *ad hoc*, yn ogystal â nodi rhai meysydd newydd y dylid eu hastudio.

Mae monitro yn hanfodol er mwyn mesur effeithiolrwydd rheolaeth y safle, ac y mae dau fath penodol o fonitro yn hollbwysig: monitro cydymffurfiaeth a monitro cyflwr. Ystyr monitro cydymffurfiaeth yw cynnal gwiriadau rheolaidd i weld i ba raddau y cydymffurfir â'r mesurau rheoli (er enghraifft, ufuddhau i'r codau ymddygiad neu gadw o fewn y lefelau llygru a bennir o dan drwyddedau arllwys). Yr awdurdod perthnasol penodol ar gyfer y gweithgarwch dan sylw a fydd yn ymgymryd â'r math hwn o fonitro, er mwyn cael sicrwydd nad yw'r gweithgarwch yn achosi dirywiad yn nodweddion diddordeb y safle. Cyfrifoldeb Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn bennaf yw monitro cyflwr, sef cynnal gwiriadau cyson ar "ddangosyddion perfformiad" cynefinoedd a rhywogaethau'r safle, i weld a ydynt yn cyrraedd y targedau 'cyflwr ffafriol'.

Gall fod yn ofynnol cadw goruchwyliaeth ar rai gweithgareddau neu ffactorau penodol, sydd â'r potensial i andwyo nodweddion y safle, ond nad yw monitro manwl yn briodol ar eu cyfer, neu nad yw eto wedi ei drefnu. Gall hyn olygu dyletswydd syml i 'gadw llygad' ar ryw agwedd neu i gilydd, er enghraifft sbwriel ar y traethau, newid yn yr hinsawdd neu ychwanegu rhywogaethau estron.

Bydd canlyniadau'r monitro yn gymorth i benderfynu a yw'r amcanion cadwraeth ar gyfer y safle yn cael eu cyrraedd, a chanfod pa newidiadau sydd eu hangen yn y dull o reoli. O dan y Rheoliadau Cynefinoedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, sef yr asiantaeth cadwraeth natur statudol yng Nghymru, sy'n gyfrifol am adrodd wrth yr Undeb Ewropeaidd am gyflwr nodweddion diddordeb y safle. Gwneir hynny trwy Lywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU bob 6 blynedd.

